# Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

**EOC(3)-03-11 : Papur 2**

## Ymateb Ysgrifenedig i Adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar Ddarparu Gwasanaethau ar gyfer Pobl Ifanc Anabl (Ionawr 2007) gan Leighton Andrews AC, y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

Chwefror 2011

### Cyflwyniad

Ym mis Mehefin 2009, cyflwynodd fy rhagflaenydd adroddiad ar y cynnydd o ran cyflawni argymhellion adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar Ddarparu Gwasanaethau ar gyfer Pobl Ifanc Anabl (Ionawr 2007) mewn datganiad ysgrifenedig. Yr ymateb hwn fydd y pedwerydd o'i fath ac rwyf wedi amlinellu isod fy ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad. Fel ag o'r blaen, mae hyn wedi'i osod yng nghyd-destun ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cynulliad Cymru i roi cyfle cyfartal i holl bobl Cymru drwy sicrhau bod y gwaith o lunio polisïau a darparu gwasanaethau yn canolbwyntio'n llwyr ar anghenion unigolion. Mae hefyd yn adlewyrchu'n hymrwymiad i wella cyfleoedd pobl ifanc anabl mewn bywyd a'u helpu i oresgyn y rhwystrau y maent yn eu hwynebu o ran cael yr un cyfleoedd â'u cyfoedion.

### Ymatebion i Argymhellion Unigol

**1 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu polisi strategol sy'n cynnwys yr holl wasanaethau sydd eu hangen ar bobl ifanc i'w helpu i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i fyw bywyd llawn. Dylid cynnwys pobl ifanc yn y broses o ddod o hyd i'r ffordd orau o sicrhau hyn.**

**2 Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyhoeddi canllawiau i holl is-adrannau polisi, awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru ar gynnwys pobl ifanc anabl, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn y broses o lunio polisïau. Dylai'r canllawiau nodi arfer da (e.e. gwaith y Grwp Cyfeirio Pobl Ifanc Anabl) a phwysleisio'r angen i wrando ar farn pobl ifanc anabl yn eu geiriau hwy eu hunain yn hytrach na chanolbwyntio ar farn eu teuluoedd a'u gofalwyr.**

**3 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi canllawiau i holl gyrff y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau, un-i-un, grwpiau, prosiectau a mentrau i bobl**

**ifanc er mwyn sicrhau eu bod mor hygyrch â phosibl i'r holl bobl ifanc. Dylai'r canllawiau gynnwys:**

- **sicrhau bod gwybodaeth am brosiectau ar gael yn hawdd;**
- **creu amgylchedd y mae pobl ifanc yn teimlo'n gysurus ag ef;**
- **sicrhau y caiff anghenion pobl ifanc eu deall yn llawn;**
- **gwneud cynnydd tuag at brosiectau mor ddifyr ac mor heriol â phosibl i bob person ifanc, gan asesu a lleihau unrhyw risgiau cysylltiedig.**

Ymateb: Derbyn

Mae'r gofyniad yn Neddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005 i bob corff cyhoeddus fabwysiadu Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl yn mynd i'r afael â'r argymhellion hyn.

Yn ogystal, mae fy swyddogion wedi datblygu canllawiau Strategaeth Cyfranogiad Lleol gan weithio gydag ystod o fudiadau partner cenedlaethol a lleol, a chyda phlant a phobl ifanc. Bwriad y canllawiau hyn yw cefnogi a datblygu cyfranogiad plant a phobl ifanc yng Nghymru. Y nod yw sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc 0-25 oed yn cael cyfleoedd i gyfrannu at wneud penderfyniadau ar faterion sy'n effeithio ar eu bywydau yn lleol, a bod eu lleisiau'n cael eu clywed yn hyn o beth.

Mae'r canllawiau hyn yn tanlinellu pwysigrwydd bod yn gynhwysol a'r angen i gynnwys plant a phobl ifanc o grwpiau buddiant arbennig a grwpiau anodd eu cyrraedd.

Ar sail y Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru), rydym hefyd yn cynnig gwneud y Canllawiau Cynghorol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc yn statudol. Bydd y canllawiau hyn yn cefnogi cyfranogiad ar draws ystod eang o feysydd polisi ac yn sicrhau bod cyfranogiad yn cael eu brif-ffrydio mewn gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn y 22 ardal awdurdod lleol.

O fewn Llywodraeth y Cynulliad, rydym wedi gofyn i swyddogion cyswllt is-adrannol ar draws meysydd polisi gydlynu a chefnogi arferion effeithiol ynghylch plant a phobl ifanc o ran y penderfyniadau ar faterion sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae'r holl swyddogion cyswllt is-adrannol yn cael hyfforddiant ar gyfranogiad.

Yn ogystal, mae Consortiwm Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc Cymru wedi llunio 'canllawiau tanio' ar arferion effeithiol i annog cyfranogiad plant a phobl ifanc. Mae'r canllawiau hyn ar gael i bob corff cyhoeddus ac allanol yng Nghymru.

Ar sail y canllawiau hyn, rydym wedi datblygu pecynnau hyfforddi sy'n cael eu darparu fel rhan o'r hyfforddiant craidd ar gyfer swyddogion

Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r hyfforddiant hwn yn canolbwyntio ar sut gall plant a phobl ifanc gyfrannu at lunio polisïau, ysgrifennu dogfennau, ymgynghori a ffyrdd eraill o ystyried eu lleisiau a'u barn. Mae rhagor o becynnau hyfforddi ar y gweill.

Mae'r Consortiwm wedi datblygu a chyflwyno modiwl hyfforddi ar gyfer gweithwyr proffesiynol mewn methodoleg effeithiol ar gyfer annog cyfranogiad plant a phobl ifanc.

Rydym hefyd wedi llunio canllawiau i ysgolion ynglŷn â Gwrando ar Ddysgwyr, gan gynnwys fersiwn i athrawon dysgwyr ag anawsterau dysgu/cyfathrebu.

Rydym wedi cyflwyno sesiynau hyfforddi/codi ymwybyddiaeth ar gyfranogiad i bobl ifanc y mae'n anodd ymgysylltu â nhw, ac rydym wrthi'n dyfarnu contract newydd ar gyfer rhagor o sesiynau hyfforddi/codi ymwybyddiaeth gyda grwpiau neu unigolion sy'n rhannu nodwedd i'w amddiffyn. Mae hyn yn cynnwys pobl ifanc ag anabledd. Rydym hefyd yn cynnig darparu hyfforddiant penodol i bobl ifanc fyddar a dall.

Rydym wedi ymgynghori ar gyd ganllawiau statudol ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid a Gwasanaethau Cymorth Dysgwyr, sy'n diweddaru'r canllawiau ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuenctid sydd yn Ymestyn Hawliau: Cynorthwyo Pobl Ifanc yng Nghymru (2002) ac yn rhoi canllawiau statudol ar gyfer Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009. Cyhoeddwyd adroddiad dadansoddi'r ymgynghoriad ar 22 Rhagfyr 2010.

**4 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru drefnu adolygiad o hyfforddiant cydraddoldeb i bobl anabl i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc anabl a chyflogwyr. Dylai canlyniadau'r adolygiad helpu gyda'r gwaith o ddatblygu hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol, sy'n cynnwys darparu cyngor, gwybodaeth a chymorth ar berthnasau, rhywioldeb ac iechyd rhyw, yn ogystal â chyngor addysgol a chyngor ar yrfaoedd.**

**5 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ar sut i sicrhau bod hyfforddiant cydraddoldeb i bobl anabl mewn awdurdodau lleol yn cael ei ddarparu gan bobl â hyfforddiant a phrofiad priodol a digonol o'r materion sy'n wynebu pobl anabl.**

Ymateb: Ar hyn o bryd nid oes gan Lywodraeth y Cynulliad y pwerau i roi'r argymhellion hyn ar waith. Fodd bynnag, rydym yn cefnogi'r argymhellion mewn egwyddor a byddwn yn eu datblygu drwy drafod â'r cyrff perthnasol**.**

Cyhoeddwyd canllawiau i ysgolion ac awdurdodau lleol ar eu dyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb i bobl anabl, sy'n rhoi cyngor ar ddatblygu cynlluniau gweithredu cydraddoldeb i bobl anabl a hyfforddiant i staff, ddiwedd mis Medi 2007.

Ar ben hyn, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi datblygu Cynllun Cydraddoldeb Sengl ar gyfer rhyw, hil ac anabledd, ynghyd â chrefydd, cred a diffyg cred, oedran, trawsrywioldeb a thueddfryd rhywiol.

Drwy greu cynllun cydraddoldeb sengl, ein nod yw mynd i'r afael ag amryfal anghydraddoldebau. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl wedi annog gwaith ar draws meysydd a phortffolios, fel y gwaith a wnaed ar y mesur tlodi plant, ac mae wedi sicrhau y caiff dinasyddion eu hystyried fel pobl gyflawn. Rhan bwysig o'r cynllun yw sicrhau ein bod yn hyrwyddo tegwch, parch, cydraddoldeb ac urddas yn ein gwaith, ac mae hynny'n ymestyn y tu hwn i'r meysydd cydraddoldeb hynny.

**6 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu polisi fframwaith cyfannol, cydgysylltiedig ar gyfer darparu cymorth a gwasanaethau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth cyn-16 ac ôl-16 (hyd at o leiaf 25 oed).**

**Dylai'r polisi fframwaith gwmpasu adnabyddiaeth gynnar, asesu a darpariaeth gwasanaethau i nodi'n glir y rolau a'r protocolau aml-asiantaethol ar gyfer rhannu gwybodaeth a darparu gwasanaethau.**

Ymateb: Derbyn

Mae Cod Ymarfer AAA Cymru (2002) yn parhau'n weithredol ac mae'n rhoi cyngor ymarferol i awdurdodau lleol, ysgolion a gynhelir, lleoliadau'r blynyddoedd cynnar ac eraill (gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â chynllunio pontio) sy'n ymgymryd â'u dyletswyddau statudol i nodi, asesu a gwneud darpariaeth ar gyfer anghenion addysgol arbennig plant.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi'n diwygio'n gynhwysfawr y fframwaith asesu statudol (datganiadau) ynghylch plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae rhan o'r diwygio hwn yn cynnwys creu system gyfannol ar gyfer adnabod, asesu, cynllunio ac adolygu, sy'n darparu'n briodol ar gyfer anghenion addysgol, meddygol, personol a chymdeithasol y plentyn neu'r person ifanc a'u teuluoedd. Bydd y Cynllun Datblygu Unigol yn datblygu'r dull hwn o ganolbwyntio ar y person, a bydd yn berthnasol lle bo'n briodol o adeg geni tan 25 oed. Caiff ei gefnogi gan waith aml-asiantaethol i ddarparu gwasanaethau'n agos i'r cartref lle bo hynny'n ymarferol.

Ddechrau 2010, ar y cyd ag Anabledd Dysgu Cymru, lluniodd Llywodraeth Cynulliad Cymru daflen a ddyluniwyd gan bobl ifanc anabl yn arbennig ar gyfer pobl ifanc anabl. Mae'r daflen, 'Fy Mywyd i, Fy Ffordd i', yn cynnwys cyngor ymarferol i bobl ifanc ym mhob cyfnod pontio, yn ogystal ag astudiaethau achos diddorol sydd, yn ôl llawer o bobl ifanc, wedi'u helpu i'w tywys a rhoi sicrwydd iddynt drwy broses a all fod yn frawychus. Lansiwyd y daflen ym mis Mawrth 2010 mewn cynhadledd bontio ar y cyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru/Rhwydwaith Cydlynu Gofal y DU yn y Canolbarth. Roedd y digwyddiad hynod o lwyddiannus, oedd yn tynnu ystod eang o randdeiliaid ynghyd o'r sectorau statudol a gwirfoddol yn ogystal â rheini a gofalwyr, yn cynnwys cryn dipyn o gyfranogiad gan y bobl ifanc eu hunain, oedd hefyd yn rhedeg y gynhadledd.

Mae cynhadledd arall wedi'i threfnu ar gyfer mis Mawrth eleni (2011). Pobl ifanc anabl sydd wedi'i datblygu a'i chynllunio, a nhw fydd yn gyfrifol am ei rhedeg, gyda ffocws cryf ar bontio unwaith eto.

Yn 2010 comisiynwyd dwy elfen arall o ganllawiau pontio, sef un i weithwyr proffesiynol ac un i rieni/gofalwyr, gan Ganolfan Anableddau Dysgu Cymru a SNAP Cymru yn y drefn honno. Mae drafftiau cyntaf y ddwy ddogfen wedi'u llunio a bydd rhagor o waith yn cael ei wneud arnynt, gyda'r bwriad o'u lansio fel canllawiau ar y we yn ddiweddarach yn 2011.

Mewn ymateb i bwysau cyllid cynyddol ac anghynaliadwy phryderon cysylltiedig a fynegwyd gan ddarparwyr ôl-16, dysgwyr a rhieni, ym mis Mawrth 2010 cyhoeddais fy mwriad i sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen gyda chylch gorchwyl arbennig i ystyried sut i wella'r trefniadau cyllido ar gyfer dysgwyr ôl-16 mewn ysgolion ac addysg bellach.

Mae byrdwn argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ymwneud â mwy o gysondeb mewn gwaith ledled Cymru, cydweithredu rhanbarthol a rhoi mwy o sylw i werth am arian yn y broses gomisiynu. Mae cynllunio gwell yn hanfodol o ran sicrhau mwy o ddewisiadau lleol i bobl ifanc sydd efallai ag opsiynau ôl-ysgol sydd wedi'u cyfyngu ar hyn o bryd i goleg preswyl sy'n bell o'u cartref.

Caiff Grŵp Cyflawni a Gweithredu ei ffurfio'n fuan i fwrw ymlaen ag argymhellion canlynol y Grŵp Gorchwyl a Gorffen:

- Sefydlu protocol ar y cyd rhwng yr holl bartneriaid yn ymwneud â chynllunio pontio;
- Cymryd camau i sicrhau bod cynllunio pontio, ynghyd ag asesiadau a phenderfyniadau ynghylch lleoliadau ôl-ysgol mewn colegau arbenigol, yn digwydd yn gynt;
- Cynnig ac ymgynghori ar newidiadau deddfwriaethol sy'n cynnwys gosod cynllun datblygu unigol yn lle'r datganiad AAA yn achos pob

dysgwyr hyd at 25 oed, a throsglwyddo cyfrifoldebau eraill fel ariannu lleoliadau mewn colegau addysg bellach arbenigol;

- Awdurdodau lleol i ddatblygu dull consortiwm o gontractio sy'n mabwysiadu agwedd 'buddsoddi i gynilo';
- Colegau addysg bellach, ysgolion arbennig a cholegau arbenigol i ddatblygu consortia 'canolbwynt a braich' gyda'r bwriad o rannu arbenigedd;
- Sefydlu ffordd wahanol o ddosbarthu cyllid atodol i golegau addysg bellach drwy ddyraniadau cyllid prif-ffrwd;
- Awdurdodau lleol yn ymgysylltu â phartneriaethau'r Cynllun Offer Cymunedol, ynghyd ag ysgolion, sefydliadau addysg bellach, ad ysgolion a cholegau arbenigol.

**7 Llywodraeth Cynulliad Cymru i adolygu'r systemau asesu ac ariannu ar gyfer gwasanaethau cymorth i helpu pobl ifanc anabl i symud o addysg a hyfforddiant i gyflogaeth. Dylai'r adolygiad ganolbwyntio ar ddarpariaeth dysgu yn seiliedig ar waith, a sicrhau ei fod yn pwysleisio canlyniadau cyfartal o ran swyddi a chynnydd, yn hytrach nag ar gymwysterau a enillwyd.**

Ymateb: Derbyn

Yn sgil yr adolygiad dysgu seiliedig ar waith, bydd nifer o argymhellion y Cynllun Gwella Dysgu Seiliedig ar Waith yn cael eu rhoi ar brawf a'u gwerthuso cyn eu cyflwyno'n genedlaethol.

Fel rhan o adolygiad Adeiladu Sgiliau, ein prif raglen cyflogadwyedd i bobl ifanc, rydym wedi sefydlu rhwydweithiau dysgu cyflogadwyedd mewn dwy ardal. Nod y rhwydweithiau hyn yw gwella ansawdd ac adweithedd y ddarpariaeth i fodloni galw'r farchnad lafur. Bydd y rhwydweithiau peilot hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o ddarparwyr lleol ac asiantaethau cyfeirio a chymorth lleol.

Bydd yna gysylltiadau gwell hefyd gyda rhaglenni lleol eraill, fel Llwybrau i Waith, y gwasanaeth diwygiedig cyngor cyflogaeth i bobl anabl a rhaglen Porth Ieuenctid Gyrfa Cymru, i sicrhau bod darpariaeth briodol ar gael i fodloni anghenion lleol. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i sicrhau bod gwasanaethau priodol ar gael drwy fesurau'r dirwasgiad, sy'n cynnwys Gwarant i Bobl Ifan o hyfforddiant neu waith drwy Gronfa Swyddi'r Dyfodol ac opsiwn gwirfoddoli neu hunangyflogaeth.

Mae hyn cyd-fynd â dull strategol Llywodraeth y Cynulliad o wella sgiliau a chyflogaeth drwy Grisiau Gyrfa Cymru, sy'n anelu at roi cyngor a chymorth priodol ac amserol, sy'n addas i anghenion unigolion wrth iddynt fynd ymlaen i gyflogaeth a dilyniant parhaus.

Bydd y Rhaglen Hyfforddiaethau yn cymryd lle Adeiladu Sgiliau eleni i bobl ifanc 16-18, a Camau at Waith i'r rheini sydd dros 18 nad ydynt mewn addysg na chyflogaeth.

**8 Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau y darperir yr holl gyngor a chymorth ar addysg, hyfforddiant a gyrfaoedd, ar lafar neu'n ysgrifenedig, drwy gyfrwng y Gymraeg, ieithoedd lleiafrifoedd ethnig a fformatau hygyrch. Dylai hyn gynnwys sicrhau bod pob gwasanaeth gwybodaeth a ariennir gan y Cynulliad ar gael ar-lein.**

Ymateb: Derbyn

Mae gwybodaeth wahaniaethol ar gyfer cleientiaid ag anawsterau dysgu bellach ar gael ar fformat dwyieithog ar wefan Gyrfa Cymru - gyrfacymru.com. Mae'r wybodaeth hon mewn adran ar wahân o'r wefan o'r enw 'Fy Nyfodol'. Mae'n cynnwys y canlynol:

- Hunanymwybyddiaeth
- Dewisiadau ôl-16
- Materion o ran byw'n annibynnol
- Chwilio am waith
- Pobl a all roi cymorth
- Gwneud penderfyniadau a chynllunio trefniadau pontio

Datblygwyd y wefan drwy ymgynghori â phobl ifanc ag anawsterau dysgu, eu hathrawon a'u rhieni. Yn ogystal â'r wybodaeth wahaniaethol, mae amrywiaeth o weithgareddau rhyngweithiol ar gael sy'n mynd i'r afael â sgiliau byw'n annibynnol, gwneud penderfyniadau a chynllunio trefniadau pontio.

Ar ôl darllen y wybodaeth, gall defnyddwyr nawr gofnodi eu manylion a'u cynlluniau eu hunain yn "Fy Man", sef e-bortffolio y gellir ei gyhoeddi fel dogfen neu fel gwefan. Gall defnyddwyr uwchlwytho testun, lluniau a fideos. Rhagwelir y bydd hyn yn helpu defnyddwyr i gyfrannu'n fwy at y broses o gynllunio trefniadau pontio ac yn eu galluogi i roi gwybodaeth i ddarparwyr yn y dyfodol ar eu dewis fformat.

**9 Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod gan bob awdurdod lleol yng Nghymru systemau ar waith i sicrhau bod pob person ifanc, heb ystyried unrhyw nam, yn cael cymorth priodol drwy'r broses bontio.**

**10 Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod cymorth un i un ar gael i bobl ifanc anabl fel rhan o wasanaethau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.**

Ymateb: Derbyn yn Rhannol

Mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (y Fframwaith) ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth yn cynnwys safonau penodol ar gyfer pontio. Drwy'r Fframwaith, mae Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc a sefydliadau cyfrifol yn cydgysylltu gwaith amlasiantaeth sydd â blaenoriaeth, gyda'r nod o wella'r gwasanaethau a ddarperir i blant a phobl ifanc.

Mae un o'r safonau yn y Fframwaith yn ymwneud yn benodol â'r rôl bwysig y mae gweithwyr pontio allweddol yn ei chwarae, wrth ddarparu cymorth un i un i bobl ifanc anabl er mwyn sicrhau eu bod yn cael cyfle cyfartal i fanteisio ar wasanaethau a chymorth yn amserol.

Er mwyn sicrhau y gall mwy o bobl ifanc gael cymorth gan weithiwr allweddol, ers 2008-09 mae'r Cynulliad wedi dyrannu £3 miliwn o arian grant (sy'n cynnwys arian cyfatebol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop) i awdurdodau ledled Cymru fel y gallant ddatblygu gwaith pontio ymhellach a recriwtio mwy o weithwyr pontio allweddol. Yn benodol, mae pum prosiect peilot wedi cynhyrchu adnoddau arloesol ar gyfer cynllunio trefniadau pontio a chynlluniau pontio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a disgwyliwn y bydd awdurdodau eraill yn mabwysiadu'r rhain fel modelau arfer gorau gan sicrhau dull cyson o weithredu ledled Cymru.

Dylai dadansoddiad cost a budd o'r pum prosiect peilot cychwynnol ar gyfer gweithwyr pontio allweddol fod ar gael yn ddiweddarach eleni. Bydd gwerthusiad llawn o'r pum prosiect peilot a'r prosiectau ehangach a ariennir gan ESF yn dechrau'n fuan, a disgwylir yr adroddiad ym mis Ebrill 2013.

Mae'r brif elusen o ran gweithwyr allweddol, sef Rhwydwaith Cydlynu Gofal y DU (CCNUK), yn gweithio gyda ni ac mae wedi datblygu fframwaith cymorth ar gyfer gweithwyr pontio allweddol, safonau ar gyfer gweithwyr allweddol ac adnodd hunanwerthuso manwl i sicrhau bod gwaith pontio allweddol yn parhau i fod yn effeithiol ac yn gynaliadwy.

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru a CCNUK Cymru yn cynnal cynhadledd bontio ar y cyd yng Ngogledd Cymru ar 10 Mawrth 2011. Hon fydd y drydedd gynhadledd o'r fath i'w chynnal mewn cynifer o flynyddoedd a bydd yn rhoi cyfle gwerthfawr i glywed yn uniongyrchol gan bobl ifanc anabl am ba mor dda rydym yn perfformio o ran y cymorth y maent yn ei gael.

**11 Llywodraeth Cynulliad Cymru i asesu effaith darpariaeth gwasanaethau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, drwy fesur pa mor hygyrch yw gwasanaethau i bobl ifanc anabl, a yw'r gwasanaethau yn diwallu anghenion unigol a faint o bobl ifanc anabl 16-25 oed sydd mewn cyflogaeth neu'r math o gyflogaeth o'u dewis.**

**12 Llywodraeth Cynulliad Cymru i weithredu ar ganlyniadau'r asesiad ar wasanaethau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i gynyddu eu heffeithiolrwydd.**

Ymateb: Derbyn

Cafwyd adroddiad gan Estyn ar ganlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ym mis Mawrth 2007. Mae camau eisoes wedi'u cymryd mewn perthynas â nifer o'r argymhellion.

Un o brif argymhellion yr adroddiad oedd bod angen data gwell. Cyhoeddwyd canllawiau ar ddiwygio data CYBLD ar gyfer disgyblion ag AAA ym mis Medi 2007 yn barod ar gyfer newid y system o fis Ionawr 2008.

Mae dogfennau cwricwlwm diwygiedig yn y canllawiau i ysgolion "Cwricwlwm i Bob Dysgwr" yn rhoi canllawiau ar gynllunio'r cwricwlwm ac asesu dysgwyr ag AAA. Lluniwyd mwy o ganllawiau ar asesu dysgwyr gan ddefnyddio canlyniadau'r cwricwlwm cenedlaethol (ar gyfer y rhai y mae eu gwaith yn is na lefel 1). Mae'r rhain, ynghyd ag Ar Drywydd Dysgu, yn golygu bod y fframwaith asesu yng Nghymru yn briodol i bob dysgwr.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu'r proffil sgiliau er mwyn sicrhau y bydd yn diwallu anghenion pob dysgwr.

Mae menter gan y Ganolfan Byd Gwaith a Llywodraeth Cynulliad Cymru, o'r enw Yn Awyddus i Weithio, sy'n canolbwyntio ar helpu i gynyddu cyflogaeth a lefelau gweithgarwch economaidd yn yr ardaloedd lle ceir yr angen mwyaf yng Nghymru, bellach wedi'i chymeradwyo gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Mae'n helpu'r rhai sy'n cael budd-daliadau analluogrwydd a'r rhai sy'n datgan bod ganddynt anabledd i ddychwelyd i'r gwaith, gan lenwi bylchau mewn darpariaeth gyflogaeth arall a chreu cymorth ychwanegol i'r farchnad lafur yn y cymunedau mwyaf difreintiedig.

Rydym hefyd wedi sefydlu Cyd-fwrdd Cyflenwi Rhaglenni Cyflogaeth gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn helpu i gynllunio a chyflenwi polisïau a gwasanaethau yng Nghymru. Bydd y Bwrdd yn chwarae rôl bwysig i helpu i lywio syniadau DWP ynghylch sut y bydd y Rhaglen Waith newydd yn gweithredu yng Nghymru.

**13 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a darparwyr gwasanaeth adolygu gwasanaethau cymorth, cyngor a gwybodaeth i bobl ifanc ar berthnasau, rhywioldeb ac iechyd rhyw yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol, drwy ymgynghori'n llawn â phobl ifanc anabl eu hunain.**

**Dylid darparu'r canllaw arfer da canlyniadol mewn ffyrdd y gall pob plentyn a pherson anabl â nam eu deall.**

Ymateb: Derbyn

Ers mis Medi 2008, mae'r Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol ar gyfer rhai 7 i 19 oed yng Nghymru wedi cael ei roi ar waith mewn ysgolion. Fe'i ategir gan wefan bwrpasol sy'n rhoi canllawiau ar ABCh.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi diwygio a diweddaru'r cylchlythyr cyfarwyddyd ar ryw a chydberthnasau mewn ysgolion, a ddisodlodd y cylchlythyrau blaenorol ers mis Medi 2010. Cynhaliwyd ymarfer llunio polisi cynhwysol i sicrhau nad yw'r canllawiau diweddaraf yn gwahaniaethu mewn unrhyw ffordd a'u bod yn adlewyrchu anghenion disgyblion ag anabledd yn llawn.

Datblygwyd canllawiau ar y we ar ABCh ar gyfer dysgwyr ag anghenion cymhleth ac fe'u lansiwyd ym mis Hydref 2009.

**14 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod telerau ac amodau pob aelod o staff sy'n gweithio gyda phobl ifanc anabl mewn ysgolion, yn cynnwys cynorthwywyr cymorth dysgu, yn caniatáu iddynt gael cyfleoedd hyfforddiant digonol i'w galluogi i roi cymorth llawn i bobl ifanc anabl.**

Ymateb: Nid oes gan Lywodraeth y Cynulliad y pŵer ar hyn o bryd i weithredu'r argymhelliad hwn. Fodd bynnag, cefnogwn yr argymhellion mewn egwyddor a byddwn yn eu datblygu mewn trafodaethau â'r cyrff perthnasol.

Dosbarthwyd Cylchlythyr Iechyd Cymru (2006) 084 i bob cyflogwr yn y GIG ym mis Rhagfyr 2006 gan eu hatgoffa o'u dyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb i bobl anabl o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005. Rhoddwyd canllawiau tebyg i bob cyflogwr ym maes addysg ym mis Ionawr 2007.

Ddiwedd mis Medi 2007, cyhoeddwyd canllawiau i ysgolion ac awdurdodau lleol ar eu dyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb i bobl anabl, sy'n cynnig cyngor ar ddatblygu cynlluniau gweithredu cydraddoldeb i bobl anabl a hyfforddi staff.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi'n adolygu'r safonau proffesiynol a'r cyfleoedd datblygu proffesiynol ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio mewn amrywiaeth o leoliadau dysgu. Fel rhan o'r broses hon rydym yn edrych ar ffyrdd o ehangu mynediad staff cymorth at hyfforddiant a chyfleoedd datblygu.

**15 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi mesurau ychwanegol ar waith, rhai ymarferol ac ariannol, fel cymhellion i gyflogwyr ac arian ar gyfer gweithwyr cymorth, er mwyn sicrhau y cynigir lleoliadau profiad gwaith ystyrlon i bobl ifanc anabl.**

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Yr ysgol neu'r sefydliad dysgu sy'n bennaf gyfrifol am drefnu profiad gwaith. Mae ysgolion arbennig neu ysgolion â disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol eisoes yn cael adnoddau ychwanegol er mwyn diwallu'r anghenion dysgu ychwanegol hyn.

Felly cyfrifoldeb yr ysgol yw negodi â chyrff lleol eraill sy'n darparu gwasanaethau i ddisgyblion anabl, fel gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd, er mwyn cael unrhyw gymorth ychwanegol y gall fod ei angen arni.

Mae Gyrfa Cymru wedi parhau i wella'r cymorth sydd ar gael i gleientiaid anabl drwy lunio trefniadau lleol ag ysgolion arbennig (ac ysgolion prif ffrwd â myfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol) i ddarparu'r lleoliadau sydd fwyaf addas i'r disgybl ac y gellir eu haddasu i ddiwallu ei anghenion arbennig.

Mae hyn yn rhan o gymorth parhaus Gyrfa Cymru i gleientiaid anabl, fel gwasanaeth Fy Man, a lansiwyd yn benodol ar gyfer yr anabl, ar Gyrfa Cymru Ar-lein.

Yn ogystal, mae ein rhaglen Recriwtiaid Ifanc newydd yn cynnwys cymhorthdal cyflog o £50 yr wythnos i gyflogwyr sy'n recriwtio prentis ychwanegol rhwng 16 a 24 oed.

**16 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda'r Sector Gwirfoddol a Chymunedol i nodi ffyrdd y gellir cynnwys sefydliadau gwirfoddol yn fwy wrth gyflwyno mentrau wedi'u hanelu at helpu pobl ifanc anabl i gael gwaith sefydlog.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae fy swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ar fanylion rhaglen hyblyg newydd y Fargen Newydd, rhaglenni gwasanaethau cynghori ar Anabledd a'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, a gyflwynwyd yn ystod hydref 2008. Maent hefyd yn parhau i weithio gyda DWP ar ei strategaeth gomisiynu, a fydd yn rhoi cyfleoedd i sefydliadau yn y sector gwirfoddol a'r sector preifat roi cymorth i grwpiau di-waith.

Mae rhaglen 'Y Fargen Newydd ar gyfer Pobl Anabl' yng Nghymru wedi helpu bron 19,000 o bobl dros 18 oed i gael gwaith ers iddi ddechrau ym mis Gorffennaf 2001.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r Ganolfan Byd Gwaith, Gyrfa Cymru, y Gwasanaeth Prawf, Working Links ac awdurdodau lleol i helpu pobl sy'n economaidd anweithgar i gael gwaith a darparu cyflogaeth dan gymorth dros dro am hyd at 6 mis.

Rydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda'r sector gwirfoddol drwy gydol y gwaith o ddatblygu Fframweithiau Strategol Cydgyfeirio'r UE ar gyfer Anweithgarwch a Phobl Ifanc.

Ym mis Awst 2011 byddwn yn cyflwyno'r rhaglen ieuenctid 'Hyfforddiaethau' i olynu'r rhaglen Adeiladu Sgiliau. Bydd y rhaglen hon yn cynnig tri llwybr penodol i bobl ifanc ddi-waith eu dilyn. Mae'r opsiwn hyfforddi 'Ymgysylltu' ar lefel mynediad wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â'r mater o gynnig addysg baratoadol i unigolion y mae angen iddynt fynd i'r afael â rhwystrau i ddysgu.

Yn ogystal â hyn, fel rhan o un o'r camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda sefydliadau gwirfoddol i dreialu elfennau 'Llwybrau at Waith' newydd ar gyfer pobl ifanc 16 a 17 oed.

Yn olaf, bydd menter newydd o'r enw Cynllun Cyfrifon Segur yn ei gwneud yn bosibl i arian mewn cyfrifon banc a chymdeithasau adeiladu 'segur' gael ei ailfuddsoddi er budd y gymuned. Un o'i flaenoriaethau yng Nghymru fydd pobl ifanc 'Nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant' (NEET).

**17 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru wneud sylwadau i'w chydweithwyr yn yr Adran Gwaith a Phensiynau ar y canlynol:**

- **yr angen i oresgyn anghymhellion i bobl anabl weithio o fewn y system fudd-daliadau bresennol;**
- **yr angen i gynnwys digon o hyblygrwydd yn yr Asesiad Gallu Personol i ystyried cyflyrau meddygol cyfnewidiol;**
- **yr angen i sicrhau bod yr Asesiad Gallu Personol ar gael drwy gyfrwng sy'n briodol i bob unigolyn.**

**18 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau weithio'n agos gyda'i gilydd i ddatblygu ffyrdd y gellir defnyddio cyllidebau a'r system fudd-daliadau yn greadigol i sicrhau bod Adrannau Whitehall yn cefnogi polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru.**

Ymateb: Derbyn

Yn ystod mis Tachwedd 2010 cyhoeddodd yr Adran Gwaith a Phensiynau ei hadolygiad o'r Asesiad Gallu i Weithio.

Mae'r adroddiad yn amlinellu 25 o argymhellion sy'n nodi'r angen i wella'r broses asesu bresennol a systemau cymorth cysylltiedig.

Ceir cysylltiad hanfodol rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau â nifer o feysydd polisi pwysig, fel addysg a dysgu. Rydym wedi sefydlu Cyd-fwrdd Cyflenwi Rhaglenni Cyflogaeth gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn helpu i gynllunio a darparu rhaglenni cyflogaeth, rhaglenni sgiliau a rhaglenni eraill yng Nghymru.

'Y Rhaglen Waith' yw cynllun o fudd-dal i waith newydd Llywodraeth y DU. Ei nod yw helpu amrywiaeth eang o gwsmeriaid yn ôl i waith sefydlog gan gynnwys, er enghraifft, bobl ifanc sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith sy'n wynebu rhwystrau sylweddol a'r rhai sy'n hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Bydd y Rhaglen Waith yn disodli llawer o raglenni presennol DWP a bydd y Bwrdd yn chwarae rôl bwysig i helpu i lywio syniadau DWP ynghylch sut y bydd ei Rhaglen Waith newydd yn gweithredu yng Nghymru.

Yn sgîl cyflwyno'r Rhaglen Waith, byddwn yn targedu ein cymorth sy'n gysylltiedig â chyflogaeth at y rhai nad ydynt yn gymwys i gael cymorth drwy'r Rhaglen Waith. Drwy hynny, byddwn yn helpu i ddarparu 'llwybr cwsmer' pendant a chysondeb amlwg o ran gwasanaethau.

**19 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod ei strategaeth i wella darpariaeth gwasanaethau Iaith Arwyddion Prydain, yn cynnwys dehonglwyr, yng Nghymru yn cyflawni ei hamcanion drwy ei hadolygu a'i monitro'n rheolaidd.**

**Ymateb: Derbyn**

Daeth prosiect Dyfodol Iaith Arwyddion Prydain (BSL) i ben yn 2008 ar ôl creu 29 o ddehonglwyr BSL newydd yng Nghymru. Roedd prosiect Dyfodol BSL yn gynllun unigryw i wella gwasanaethau i ddefnyddwyr BSL ledled Cymru ac fe'i sefydlwyd mewn partneriaeth â RNID Cymru, Cymdeithas y Byddar yng Nghymru a Chymdeithas y Dehonglwyr Iaith Arwyddion. Amcan Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y prosiect hwn oedd cynyddu nifer y dehonglwyr iaith arwyddion oedd ar gael yng Nghymru yn sylweddol.

Mae 27 o brentisiaid wedi cofrestru ar y Gofrestr Dehonglwyr Iaith Arwyddion ac erbyn hyn dylai'r prentisiaid eraill fod wedi ennill y sgiliau a'r cymwysterau perthnasol i gofrestru.

O ganlyniad uniongyrchol i'r prosiect hwn, mae sillafu â bysedd bellach yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru, gan godi ymwybyddiaeth i'r dyfodol. Rydym wedi chwarae rhan flaenllaw i sicrhau bod gwasanaethau a darparwyr gwasanaethau yng Nghymru yn gallu diwallu anghenion defnyddwyr BSL yn llawn ledled Cymru. Hefyd, yn dilyn gwaith Dyfodol BSL, mae BSL ar gael yn siambr Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**20 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda chyflogwyr y sector cyhoeddus a phreifat ac Undebau Llafur i roi strwythurau ar waith i annog pobl i gyflogi pobl anabl.**

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae'r ddwy ardal lle ceir Strategaethau Dinas yng Nghymru - sef Blaenau'r Cymoedd a'r Rhyl - bellach yn darparu cymorth sy'n cynnwys help i bobl ifanc anabl ddod o hyd i waith.

Nod y Strategaeth Dinas yw mynd i'r afael â phobl sydd heb waith yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig ledled y DU - gan gynnwys pobl anabl. Mae'r Strategaeth yn seiliedig ar y syniad y gall partneriaid lleol gyflawni mwy drwy gyfuno a chysoni eu hymdrechion tuag at flaenoriaethau a rennir, a rhoddir rhyddid iddynt roi cynnig ar syniadau newydd a theilwra gwasanaethau yn unol ag anghenion lleol.

Nod y Strategaeth Dinas yw:

- sicrhau bod y ddarpariaeth yn cyfateb yn well i anghenion cyflogwyr lleol fel y gall unigolion feithrin y sgiliau a'r rhinweddau sydd eu hangen arnynt i gael y swyddi penodol y mae angen i gyflogwyr eu llenwi.

- chwarae rôl bwysig i gynyddu cyfraddau cyflogaeth lleol, a sicrhau bod y rhai o dan yr anfantais fwyaf yn y farchnad lafur yn gallu cael yr help a'r arweiniad sydd eu hangen arnynt.

Erbyn mis Mai 2009, roedd y Strategaeth Dinas yn ardal Blaenau'r Cymoedd yn ymgysylltu â 416 o hawlwyr Budd-dal Analluogrwydd ac 11 o hawlwyr Lwfans Anabledd Difrifol (o gyfanswm o 4553 o bobl yr ymgysylltwyd â hwy). O'r rhai oedd yn cael Budd-dal Analluogrwydd, mae 218 wedi dechrau swyddi ac mae 158 wedi ennill cymhwyster. O'r rhai oedd yn cael Lwfans Anabledd Difrifol, mae naw wedi dechrau swyddi ac mae dau wedi ennill cymhwyster.

Datblygodd Strategaeth Dinas y Rhyl amrywiaeth o raglenni arloesol i ymgysylltu ag unigolion anodd eu cyrraedd a datblygu eu sgiliau, gydag arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Hyd yma mae'r rhaglen

wedi ymgysylltu â chyfanswm o 399 o unigolion sy'n economaidd anweithgar, ac mae 187 o unigolion wedi datblygu sgiliau galluogi, ac mae 212 o unigolion wedi ennill cymwysterau sy'n canolbwyntio ar waith. Mae'r unigolion hyn yn parhau i gael cymorth gan sefydliadau darparu er mwyn symud ymlaen i addysg bellach neu swyddi. Mae llawer wedi cael swyddi eisoes.

**21 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau y cynhelir yr opsiynau i bobl ifanc o ran cyflogaeth dan gymorth.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae fy swyddogion wrthi'n gweithio'n agos gyda DWP ar unrhyw newidiadau posibl i gyflogaeth arbenigol.

Mae'r Cyd-fwrdd Cyflenwi Rhaglenni Cyflogaeth wedi cytuno ar 'Gyd-gynllun Gweithredol', sy'n nodi amcanion lefel uchel a chamau gweithredol er mwyn helpu i gynllunio a chyflenwi polisïau a gwasanaethau yng Nghymru. Mae'n cynnwys ymrwymiad i ymgynghori'n amserol ar bolisïau a rhaglenni newydd sy'n effeithio ar ei gyd-gyfrifoldebau.

**22 Llywodraeth Cynulliad Cymru i weithio gydag Anabledd Cymru, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain a sefydliadau cyflogwyr eraill i ddatblygu ffyrdd y gellir annog pobl ifanc anabl i ystyried hunangyflogaeth fel opsiwn ar gyfer llwybr gyrfa yn y dyfodol.**

Ymateb: Derbyn

Yr Adran Economi a Thrafnidiaeth sy'n arwain y gwaith o hyrwyddo entrepreneuriaeth a helpu unigolion i ystyried hunangyflogaeth fel llwybr gyrfa. Mae hyn yn cynnwys pobl anabl. Mae 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd' yn tanlinellu pwysigrwydd annog entrepreneuriaeth, yn enwedig ymhlith pobl ifanc. Mae hunangyflogaeth hefyd yn ffordd bwysig o adael anweithgarwch economaidd a byddwn yn rhoi blaenoriaeth i hunangyflogaeth er mwyn mynd i'r afael â phroblemau o ran cyfranogiad.

Byddwn yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i gyflwyno'r Lwfans Mentrau Newydd arfaethedig yng Nghymru a gaiff ei gyflwyno'n genedlaethol yn yr hydref, a byddwn yn helpu pobl ddi-waith i sefydlu eu busnesau eu hunain.

Mae'r gwasanaeth dechrau busnes yn helpu unigolion neu grwpiau o unigolion ledled Cymru sydd am ddechrau busnes. Rhennir y gwasanaeth yn ffrydiau allweddol amrywiol, a cheir sawl grŵp targed allweddol i ddarparu ar eu cyfer, gan gynnwys cymorth ar gyfer

hunangyflogaeth, twf a thwf ymhlith graddedigion, busnesau newydd a chymorth (mewn ardaloedd penodol) i brofi syniad busnes ar y farchnad (Blas ar Fenter).

Ategir y gwasanaeth cyfan gan ddull cynhwysol a chryf o weithredu, sy'n anelu at sicrhau cymaint o gydraddoldeb â phosibl o ran mynediad a goresgyn y rhwystrau a brofir gan rai cleientiaid. I gefnogi'r gweithgarwch hwn, ceir nifer o ddulliau gweithredu sy'n cynnwys digwyddiadau ymgysylltu wedi'u targedu i hyrwyddo hunangyflogaeth ymhlith pobl anabl, meithrin gallu darparwyr i ddeall a diwallu anghenion pobl anabl yn well, a darparu arian ychwanegol i helpu i oresgyn y rhwystrau y gall pobl anabl eu hwynebu wrth iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau dechrau busnes.

Helpu pobl ifanc i wneud dewisiadau cadarnhaol o ran eu gyrfa, yn arbennig hunangyflogaeth, yw prif ddiben y Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid. Nod y strategaeth hon yw ymgysylltu â phobl ifanc, gan gynnwys pobl ifanc anabl, eu hymrymuso a'u paratoi er mwyn rhoi hwb i'w hyder entrepreneuraidd.

**23 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru monitro a gweithredu'r cod ymarfer statudol ar drafnidiaeth ledled Cymru.**

Ymateb: Nid oes gan Lywodraeth y Cynulliad y pŵer ar hyn o bryd i weithredu'r argymhelliad hwn. Fodd bynnag, cefnogwn yr argymhellion mewn egwyddor a byddwn yn eu datblygu mewn trafodaethau â'r cyrff perthnasol.

Mae Gorchymyn Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru (Sefydlu) 2009 yn rhoi manylion am aelodau a chyfansoddiad y Pwyllgor. Rhaid i ddau aelod o leiaf fod yn bobl anabl sy'n cydymffurfio â'r diffiniad yn adran 1(2) o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995.

Dechreuodd yr ymarfer penodi cyhoeddus i recriwtio'r cadeirydd ac wyth aelod y Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2010. Penodwyd y Cadeirydd ym mis Tachwedd 2010 a disgwylir i aelodau'r Pwyllgor gael eu penodi ym mis Mawrth 2011. Mae'r cadeirydd a benodwyd wedi'i gofrestru'n anabl yn unol â diffiniad Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995.

Yn ogystal, yn rhinwedd ei swydd, mae cynrychiolydd Cymru ar y Pwyllgor Ymgynghorol ar Gludiant Pobl Anabl yn aelod o'r Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus. Mae'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Gludiant Pobl Anabl ar fin cael ei ddiddymu ac mae swyddogion wrthi'n monitro sut y gall yr Adran Drafnidiaeth greu corff newydd yn ei le ar lefel y DU a byddant yn adolygu'r effaith ar y Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus bryd hynny.

Mae Blaenraglen Waith ddrafft wedi'i pharatoi ar gyfer y Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus ac mae'n cynnwys nifer o faterion y bydd y Pwyllgor llawn yn eu hadolygu o ran cydraddoldeb a hygyrchedd. Er enghraifft, bydd y Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus yn adolygu'r amrywiaeth o fentrau lleol ledled Cymru a gynlluniwyd i wella hygyrchedd ac yn annog grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i wneud mwy o ddefnydd o drafnidiaeth gyhoeddus ac yn cynnal adolygiad o rwystrau i fynediad yn yr amgylchedd i gerddwyr, seilwaith a chyfleusterau sy'n gysylltiedig â phob math o drafnidiaeth gyhoeddus.

**24 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda darparwyr trafnidiaeth i sicrhau bod gwybodaeth am hygyrchedd gwasanaethau trafnidiaeth i bobl anabl ar gael mewn fformatau hygyrch.**

Ymateb: Derbyn yn rhannol

Mae Blaenraglen Waith ddrafft wedi'i pharatoi ar gyfer Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru. Mae cyfarfod cyntaf y Pwyllgor wedi'i drefnu ar gyfer mis Mawrth 2011. Un o dasgau cyntaf y Pwyllgor fydd adolygu a gwerthuso'r wybodaeth sydd ar gael am wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus ledled Cymru a'i hygyrchedd.

Ym mis Tachwedd 2007 lluniodd y Pwyllgor Ymgynghorol ar Gludiant Pobl Anabl fanyleb hygyrchedd wedi'i diweddaru ar gyfer bysiau bach a gynlluniwyd i gario rhwng 9 a 22 o deithwyr. Nid yw'r fanyleb hon yn ofyniad statudol ond ei nod yw hyrwyddo arfer gorau o ran diwallu anghenion pobl anabl. Lluniwyd y fanyleb ddiwygiedig hon i fynd i'r afael â'r holl gerbydau y bwriedir iddynt gael eu defnyddio i gludo pobl anabl, waeth beth fo adeiladwaith y cerbyd ac mae'n cynnwys cerbydau sydd wedi'u newid yn faniau, bysiau mini wedi'u hadeiladu â siasi, a bysiau mini a midi a gynhyrchwyd mewn ffatrïoedd, gan gynnwys rhai â lloriau isel.

**25 Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyhoeddi canllawiau newydd ar gyfer y broses dendro sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnig tendrau neu gontractau dim ond i weithredwyr sydd wedi ymgymryd â hyfforddiant a gymeradwywyd, sy'n cynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd.**

Ymateb: Nid oes gan Lywodraeth y Cynulliad y pŵer ar hyn o bryd i weithredu'r argymhelliad hwn. Fodd bynnag, cefnogwn yr argymhellion mewn egwyddor a byddwn yn eu datblygu mewn trafodaethau â'r cyrff perthnasol

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi argymell i awdurdodau lleol y dylai eu gwahoddiadau am gynigion tendr ar gyfer gwasanaethau bws lleol bwysleisio pwysigrwydd hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd a gymeradwywyd. Gofynnwyd i awdurdodau lleol hefyd sicrhau bod yr hyfforddiant hwn yn un o'r ffactorau y byddant yn eu hystyried wrth ddewis cynigion tendr llwyddiannus.

**26 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda gweithredwyr trafnidiaeth gyhoeddus a'r sector gwirfoddol i gynhyrchu canllawiau i sicrhau bod hyfforddiant ar gyfer gyrwyr a gwarchodwyr ar anghenion a hawliau pobl anabl sy'n defnyddio'r system drafnidiaeth yn briodol ac yn cael ei roi yn rheolaidd. Dylid ei ddatblygu ar y cyd â phlant a phobl ifanc a dylid monitro ei effeithiau.**

Ymateb: Derbyn yn rhannol

Mae Go Skills wedi rhoi strwythur llywodraethu newydd ar waith ac wedi sefydlu Bwrdd Cenedlaethol ar gyfer Cymru er mwyn mynd i'r afael â'r problemau o ran sgiliau a hyfforddiant sy'n wynebu'r diwydiant trafnidiaeth gyhoeddus. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda Go Skills i ystyried y ffordd orau o ddatblygu hyfforddiant ar ymwybyddiaeth anabledd a chymorth i bobl anabl.

**27 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod hyfforddiant cymorth ar gyfer pobl ifanc anabl ar ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ar gael ym mhob rhan o Gymru.**

Ymateb: Derbyn

Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried anghenion addysgol arbennig (AAA) neu anabledd disgybl wrth wneud trefniadau ar gyfer cludiant i'r ysgol. Bydd gofynion cludiant disgyblion ag AAA neu anabledd yn dibynnu ar eu hamgylchiadau unigol.

Dylai fod gan awdurdodau lleol bolisi clir a chyson ar ddarparu cludiant ar gyfer disgyblion ag AAA ac anableddau.

**28 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda darparwyr trafnidiaeth a'r sector gwirfoddol i sicrhau bod digon o gymorth a gwybodaeth ar gael i rieni a gofalwyr pobl ifanc anabl i gael yr hyder i ganiatáu i'w pobl ifanc ddefnyddio'r system drafnidiaeth.**

Ymateb: Derbyn yn rhannol

Rydym yn gweithio gyda Traveline Cymru i sicrhau bod mwy o wybodaeth ar gael i rieni a gofalwyr pobl ifanc anabl. Bydd hyn yn

golygu darparu gwybodaeth fanylach am drafnidiaeth gyhoeddus hygyrch ar y wefan.

O dan gynllun teithio Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n galluogi'r henoed a phobl anabl i ddefnyddio gwasanaethau bws lleol am ddim neu am bris rhatach, mae pobl anabl yn gallu perswadio'r awdurdodau lleol sy'n rhoi eu cardiau bws am ddim iddynt y dylai'r rhain fod yn gardiau "cydymaith". Mae hyn yn golygu y bydd hawl gan ddeiliad y cerdyn ofyn i rywun ddod gydag ef ar y bws os oes arno angen yr help ychwanegol y byddai cydymaith yn ei ddarparu. Byddai'r cydymaith yn teithio am ddim hefyd wrth hebrwng deiliaid y cerdyn.

**29 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru gynnal asesiadau anghenion tai rheolaidd ymhlith pobl ifanc sydd ag amrywiaeth o namau. Dylid defnyddio'r rhain i lywio polisi tai gyda'r bwriad o sicrhau y caiff anghenion pobl ifanc anabl eu diwallu.**

Ymateb: Derbyn

Mae'r canllawiau sydd ar gael ar asesiadau o farchnadoedd tai lleol, y disgwylir i awdurdodau lleol eu cynnal (cyhoeddwyd yn 2006), yn datgan y dylai awdurdodau lleol asesu gofynion tai pobl anabl a'r rhai ag anghenion arbennig fel rhan o'u rôl dai strategol.

**30 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru weithio gyda'r sector cyhoeddus, preifat, annibynnol a gwirfoddol i nodi a chynyddu faint o dai rhent addas sydd ar gael i bobl ifanc anabl.**

Ymateb: Derbyn

Ers 2001, caiff pob eiddo a adeiladir gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru ei ddatblygu yn unol â safonau 'Cartrefi Gydol Oes'. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparu mynediad priodol a drysau llydan, yn ogystal â sicrhau bod pob switsh/plyg ac ati ar uchder y gall defnyddiwr cadair olwyn ei gyrraedd yn hawdd. Maent hefyd yn haws i'w haddasu ar gyfer anableddau penodol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu arian ar gyfer addasiadau i eiddo cymdeithasau tai. Mae'r arian hwn wedi cynyddu'n sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, a disgwylir y bydd tua £8 miliwn ar gael eleni ar gyfer addasiadau i eiddo Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

**31 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynhyrchu canllawiau i awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ar anghenion tai pobl ifanc anabl yn cynnwys canllawiau ar y**

**cymorth sydd ei angen, addasiadau ac arian sydd ar gael am unrhyw waith sydd ei angen.**

Ymateb: Derbyn

Cyhoeddwyd y canllawiau diwygiedig ym mis Ebrill 2007.

**32 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu dull mwy cydgysylltiedig o ddarparu taliadau uniongyrchol. Bydd hyn yn cynnwys yr angen i gynyddu cyhoeddusrwydd am daliadau uniongyrchol a'r cymorth a ddarperir i bobl anabl drwy'r broses ymgeisio.**

**33 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu'r dulliau presennol ar gyfer asesu cymhwysedd ar gyfer taliadau uniongyrchol gyda'r bwriad o sicrhau bod pobl ifanc ag anableddau dysgu yn cael mynediad cyfartal.**

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Fel rhan o'n gwaith datblygu parhaus, gwnaethom gomisiynu ymchwil annibynnol yn 2007 i ganfod y rhesymau dros y problemau canlynol ac atebion lleol a chenedlaethol posibl y gellid eu mabwysiadu i'w gwella/datrys:

- y nifer a oedd yn defnyddio'r trefniant taliadau uniongyrchol;
- yr amrywiant ymddangosiadol rhwng awdurdodau lleol o ran y nifer oedd yn defnyddio'r trefniant;
- yr amrywiant ymddangosiadol rhwng grwpiau a allai fod yn gymwys o ran y nifer oedd yn defnyddio'r trefniant.

Yn 2008 anfonwyd yr adroddiad terfynol ar yr ymchwil annibynnol i'r broses o weithredu'r Cynllun Taliadau Uniongyrchol yng Nghymru at bob Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru. Gofynnwyd iddynt adolygu eu cynllun taliadau uniongyrchol a hefyd fe'u hatgoffwyd o'u dyletswydd statudol i gynnig trefniadau taliadau uniongyrchol i bawb a allai fod yn gymwys i'w cael.

Mae'r cynllun taliadau uniongyrchol presennol yn ei gwneud yn ofynnol i unigolyn gydsynio i drefniant taliadau uniongyrchol. Mae hyn yn golygu na all unrhyw unigolyn nad oes ganddo'r gallu i roi cydsyniad o'r fath fanteisio ar drefniant taliadau uniongyrchol. Mae swyddogion wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu rheoliadau a chanllawiau a fydd yn ei gwneud yn bosibl ymestyn y cynllun taliadau uniongyrchol i bobl nad oes ganddynt y gallu i roi cydsyniad. Mae ymgynghoriad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru wedi dod i ben yn ddiweddar ac mae swyddogion wrthi'n gwerthuso'r ymatebion gyda'r nod o roi rheoliadau a chanllawiau newydd ar waith yn ddiweddarach eleni.

**34 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus a gwirfoddol sy’n trefnu gofalwyr ar gyfer pobl ifanc anabl ddangos sut y gall pobl ifanc anabl gymryd rhan yn y broses o benderfynu pwy fydd yn gweithio gyda hwy a sut y maent yn gwneud hyn ar hyn o bryd.**

Ymateb: Cytuno mewn egwyddor

Gall pobl anabl sy'n 16 neu'n 17 oed, a theuluoedd â phlant anabl, ddewis cael taliadau uniongyrchol yn hytrach na gwasanaeth a ddarperir neu a gomisiynir gan yr awdurdod lleol. Efallai y byddant am brynu seibiannau byr gan ddarparwr cofrestredig (er enghraifft, gofal dydd, gofal cartref neu wasanaeth gwarchod plant dros nos) neu gyflogi cynorthwy-ydd personol i ddarparu'r saib byr. Gellir darparu'r amrywiaeth llawn o seibiannau byr drwy daliad uniongyrchol, gan gynnwys gofal dros nos oddi cartref, darparu gofal yng nghartref y plentyn neu hebrwng y plentyn i weithgarwch hamdden yn y gymuned.

Os bydd rhiant yn dewis cael taliadau uniongyrchol, ceidw awdurdodau lleol eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf 1989 i asesu ac adolygu anghenion plant anabl a'u teuluoedd yn y ffordd arferol (Canllawiau ar Daliadau Uniongyrchol: Canllawiau Gofal Cymunedol, Gwasanaethau ar gyfer Gofalwyr a Gwasanaethau Plant (Taliadau Uniongyrchol) Cymru 2004).

**35 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol sicrhau bod dulliau ar waith ar gyfer pob darparwr gwasanaethau gofal a chymorth i bobl ifanc er mwyn adolygu perfformiad eu staff a dylai'r adolygiadau hynny gynnwys barn y bobl ifanc maent yn gweithio gyda hwy.**

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mater i'r cyflogwr yw adolygu perfformiad gweithwyr gofal cymdeithasol unigol a staff gwasanaethau cymorth, boed hynny yn y sector statudol, y sector gwirfoddol neu'r sector preifat. Fel mater o arfer da, byddai Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i ddarparwyr ofyn am farn cleientiaid ar y gwasanaeth a ddarperir. Caiff y prosesau a ddefnyddir gan staff gofal cymdeithasol i asesu anghenion a darparu gwasanaethau eu hadolygu ac yn ôl y canllawiau, mae'n ofynnol cynnwys plant a phobl ifanc yn yr adolygiadau hyn.

**36 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ei gwneud yn ofynnol i bob adran gwasanaethau cymdeithasol a sefydliadau gwirfoddol sy'n gweithio gyda phobl ifanc anabl gael gweithdrefn gwyno glir, dealladwy a gaiff ei hysbysebu'n eang a'i bod yn hygyrch i bob defnyddiwr gwasanaeth.**

Ymateb: Derbyn

Mae'r sefyllfa o ran darpariaeth gwasanaethau cymdeithasol a lleoliadau gofal sy'n ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf Safonau Gofal 2000 fel y mae yn yr ymateb gwreiddiol yn 2007.

Mae Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) Cymru yn datgan bod yn rhaid i bob awdurdod lleol wneud trefniadau ar gyfer gwasanaethau partneriaeth â rhieni. Nod gwasanaethau partneriaeth â rhieni yw sicrhau bod rhieni â phlant ag anghenion ychwanegol yn gallu cael gwybodaeth, cyngor a chanllawiau mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig eu plant fel y gallant wneud penderfyniadau priodol a gwybodus. Byddai hyn yn cynnwys gweithdrefnau cwyno ar gyfer ysgolion, awdurdodau lleol a chyrff eraill.

Rydym yn dal yn ymrwymedig i'r egwyddor o roi hawl i blant wneud apêl i Dribiwnlys AAA Cymru a / neu wneud hawliad ynghylch achos o wahaniaethu ar sail anabledd. Cymeradwywyd Mesur Addysg (Cymru) 2009 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 3 Tachwedd 2009 ac fe'i cymeradwywyd gan y Cyfrin Gyngor ar 9 Rhagfyr 2009.

Mae'r Mesur hwn yn rhoi'r hawl i blant a phobl ifanc apelio i Dribiwnlys AAA Cymru mewn perthynas â mater AAA, a/neu wneud hawliad i'r Tribiwnlys ynghylch achos o wahaniaethu ar sail anabledd. Yn ogystal â chyflwyno'r hawl hon, mae'r Mesur yn gosod dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol ac yn galluogi Gweinidogion Cymru i dreialu'r broses o gyflwyno'r hawliau / dyletswyddau newydd hyn mewn awdurdodau lleol penodol.

Bydd yr astudiaeth Beilot i sefydlu'r hawl i blant a phobl ifanc eu hunain apelio a gwneud hawliad i'r Tribiwnlys yn dechrau ym mis Medi 2011.

Mae gan blant mewn angen, gan gynnwys plant anabl, hawl statudol i wneud cwyn o dan Ddeddf Plant 1989 ac mae ganddynt hawl i ddefnyddio eiriolwr i'w helpu i wneud y gŵyn.

Mae "Gwrando a Dysgu" yn darparu fframwaith ar gyfer ystyried a delio â chwynion am awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol lleol yng Nghymru. Mae'n ymdrin â chwynion am wasanaethau i blant, pobl ifanc ac oedolion.

**37 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sefydlu system eiriolaeth ar gyfer pob person ifanc anabl, heb ystyried ei nam, sy’n annibynnol ar ddarparwyr gwasanaethau, sy’n hygyrch i bawb ac sy’n gynaliadwy.**

Ymateb: Derbyn

Mae hawl o hyd gan bob plentyn anabl (mewn angen ac mewn gofal) i ddefnyddio gwasanaethau eirioli annibynnol wrth gyflwyno sylwadau neu gŵyn i wasanaethau cymdeithasol neu leoliad gofal eilaidd fel ysbyty.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sefydlu llinell gymorth eiriolaeth a chyngor ar gyfer plant a phobl ifanc hyd at 25 oed yng Nghymru. Mae'r llinell gymorth ar agor i bob plentyn a pherson ifanc ac mae ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. Ers iddi gael ei lansio ym mis Mai 2009, mae'r llinell gymorth wedi derbyn dros 4000 o alwadau gan blant a phobl ifanc.

Hefyd, o 2011-2012 ymlaen bydd gwasanaeth eirioli arbenigol integredig - ar draws meysydd iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg - yn cael ei gomisiynu gan y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc. Bydd y gwasanaeth hwn yn darparu siop un stop o gymorth eirioli a fydd yn rhoi pwyslais arbennig ar ddarparu eiriolaeth statudol a chymorth ehangach i helpu pobl ifanc sy'n agored i niwed ac sydd am leisio pryder neu wneud cwyn. Bydd plant a phobl ifanc anabl yn gallu cael cymorth gan y gwasanaethau cenedlaethol, lleol neu ranbarthol.

**38 Llywodraeth Cynulliad Cymru a Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad i sicrhau bod y model cymdeithasol o anabledd yn cael ei integreiddio’n llawn i'w swyddogaethau, hyfforddiant perthnasol a phriodol i staff a'r ffordd y maent yn cynnal busnes, yn cynnwys trwy weithredu eu Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl yn brydlon ac yn effeithiol.**

Ymateb: Derbyn

Datblygwyd Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl Llywodraeth Cynulliad Cymru yn unol â gofyniad statudol. 2007-2008 oedd blwyddyn olaf y Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl ynghyd â'r Cynllun Cydraddoldeb Hiliol a'r Cynllun Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau.

Penderfynodd Gweinidogion Cymru ddatblygu a chyhoeddi cynllun sengl ar gyfer rhyw, hil ac anabledd, ynghyd â chrefydd a chred neu ddiffyg cred, oedran, trawsrywedd a chyfeiriadedd rhywiol. Y rheswm am hyn yw nad yw pobl o reidrwydd yn perthyn i un categori syml, fel merched anabl croenddu, a gall gwahaniaethu ddigwydd ar sawl lefel.

Drwy greu cynllun cydraddoldeb sengl, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ceisio mynd i'r afael ag anghydraddoldebau lluosog. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl wedi annog gweithio ar draws meysydd a phortffolios, fel y gwaith a wnaed ar y mesur tlodi plant, ac mae wedi sicrhau y caiff y dinesydd ei ystyried fel person cyflawn. Rhan bwysig o'r cynllun yw ei fod yn sicrhau ein bod yn hyrwyddo tegwch, parch, cydraddoldeb ac urddas yn ein gwaith, ac mae hynny wedi ymestyn y tu hwnt i'r meysydd cydraddoldeb hynny.

Gelwir dull Llywodraeth Cynulliad Cymru o gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn ddull Llunio Polisi Cynhwysol (IPM). Fe'i hadolygwyd yn annibynnol yn 2008. Cafodd y gwersi a ddysgwyd o'r adolygiad eu cynnwys mewn canllawiau diwygiedig ar gyfer y broses llunio polisi cynhwysol.

Ym mis Mawrth 2009 cynhaliwyd gweithdai er mwyn rhoi trosolwg o'r broses ar gyfer asesu'r effaith ar gydraddoldeb a thrafod y broses o lunio polisi cynhwysol. Nod y gweithdai oedd rhoi dealltwriaeth i'r rhai a oedd yn bresennol o'r camau y dylid eu cymryd er mwyn llunio polisïau cynhwysol yn effeithiol. Yn seiliedig ar waith y gweithdai, gwnaed rhagor o ddiwygiadau.

Caiff y broses llunio polisi cynhwysol ei gwerthuso'n annibynnol a chyhoeddir adroddiad gwerthuso erbyn mis Mawrth 2011.

I ddechrau, defnyddir Asesiad Cydraddoldeb Porth i Bolisïau o'r dystiolaeth ynghylch cydraddoldebau i benderfynu a yw polisi yn debygol o gael effaith wahaniaethol ar un o'r grwpiau cydraddoldeb neu'r grwpiau i gyd, neu a oes cyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb.

Os yw'r dystiolaeth yn awgrymu bod effaith wahaniaethol wirioneddol neu y gallai fod effaith o'r fath, neu gyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb, rhaid cynnal Asesiad Llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb er mwyn canfod goblygiadau'r polisi ar gyfer pob un o'r grwpiau cydraddoldeb.

Yn 2002, mabwysiadodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y Model Cymdeithasol o Anabledd fel sylfaen ei holl waith ar anabledd. Mae Mewnrwyd a Gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu gwybodaeth am beth yw'r Model Cymdeithasol o Anabledd.

Yn ogystal, darparodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ran o'r arian ar gyfer prosiect 'Geiriau i Gymru' Anabledd Cymru. Nod y prosiect oedd hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch y rhwystrau a wynebir gan bobl anabl yn eu bywyd bob dydd yng Nghymru, a hynny drwy farddoniaeth, rhyddiaith a pherfformiadau.

Cynhaliwyd dau weithdy ysgrifennu creadigol ledled Cymru a oedd yn cynnwys pobl anabl ag amrywiaeth o namau gwahanol. Amlygodd y

wybodaeth a gasglwyd yn ystod y gweithdai brofiadau go iawn pobl anabl yng Nghymru. Mae'r straeon a adroddwyd wedi dod o lawr gwlad, sy'n datgelu'r gwirionedd - y pethau da a'r pethau nad ydynt cystal. Mae gan y profiadau hyn y potensial i godi ymwybyddiaeth well o gydraddoldeb i bobl anabl ymhlith darparwyr gwasanaethau, pobl sy'n llunio polisïau a phoblogaeth Cymru yn gyffredinol.

Cafodd y cyfraniadau a gasglwyd yn y gweithdai eu cynnwys mewn cyhoeddiad ar-lein. Lluniwyd arddangosfa hefyd yn dangos nifer o ddarnau unigol - geiriau gan bobl anabl.

http://www.disabilitywales.org/2174?done=true&returncontentid=2174

**39 Llywodraeth Cynulliad Cymru i archwilio hygyrchedd pob gwesty a chyfleusterau cynadledda ledled Cymru gyda'r bwriad o gynhyrchu rhestr gyhoeddus o leoliadau hygyrch a fydd yn annog pob lleoliad i gael safonau hygyrchedd gwell.**

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynnal prosiect gyda'r nod o hyrwyddo arfer da a helpu sefydliadau i ddatblygu lleoliadau sy'n fwy hygyrch. Lluniwyd canllawiau ar gyfer darparwyr lleoliadau sy'n caniatáu iddynt asesu'r ffordd orau o ddiwallu anghenion pobl anabl a darparu gwasanaeth sy'n mynd y tu hwnt i'r gofynion cyfreithiol sylfaenol presennol a nodir yn Rhan M o'r rheoliadau adeiladu.
http://wales.gov.uk/topics/equality/rightsequality/disability/accessvenues/guidance/?lang=cy

Mae'r gwaith i sicrhau y gellir defnyddio'r data a gasglwyd gan y prosiect a chwilio drwyddo ar wefan Croeso Cymru wedi'i gwblhau, ac mae adnodd chwilio ar wefan Croeso Cymru sy'n galluogi pobl i wirio pa mor hygyrch yw lleoliad.
http://www.visitwales.co.uk/holiday-accommodation-in-wales/wales-holiday-accommodation-search-cottages-b-and-b-hotels/

**40 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru annog y rheini sy'n ceisio cael caniatâd i adeiladu adeiladau cyhoeddus a masnachol newydd, drwy'r system gynllunio, gynnwys toiledau â chyfleusterau newid yn eu cynlluniau gyda'r bwriad o sefydlu, yn y lle cyntaf, un cyfleuster ym mhob ardal awdurdod lleol.**

Ymateb: Derbyn

Mae'n ofynnol darparu datganiadau dylunio a mynediad gyda rhai mathau o geisiadau cynllunio yng Nghymru. Mae'r wybodaeth a gaiff ei chynnwys yn y datganiad dylunio a mynediad yn ystyriaeth berthnasol wrth wneud penderfyniad ar gais cynllunio. Mae

cyfundrefnau eraill ar waith, fel Rhan M y Rheoliadau Adeiladu, er mwyn sicrhau bod ardaloedd cylchdroi mewnol a chyfleusterau yn cyrraedd safonau penodol.

Cyhoeddwyd diwygiadau i bolisi cynllunio Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio (TAN 12) er mwyn ymgynghori arnynt ym mis Mehefin 2008 a chyhoeddwyd fersiwn terfynol TAN 12 ym mis Mehefin 2009. Mae'n cynnwys canllawiau ar y datganiad dylunio a mynediad a hefyd yn annog yr arfer o gynnwys toiledau hygyrch o dan y cynllun 'Changing Places' mewn cynlluniau ar gyfer adeiladau masnachol newydd a chyhoeddus.

Rhwng 2008 a 2011 darparodd Llywodraeth Cynulliad Cymru £225,000 er mwyn cynyddu nifer y cyfleusterau hygyrch a geir o dan gynllun Changing Places mewn lleoliadau diwylliannol ledled Cymru. Mae'r Adran Dreftadaeth yn gweithio'n agos gyda'r sector gwirfoddol i sicrhau y caiff safleoedd eu dewis i'w gwneud yn fwy hygyrch i bobl anabl. Fel rhan o'r cynllun hwn prynwyd o leiaf ddau gyfleuster cludadwy i'w defnyddio mewn digwyddiadau cenedlaethol blynyddol.

Yn ogystal â'r ddau gyfleuster toiledau a brynwyd o dan gynllun Changing Places, mae chwech o gyfleusterau toiledau sefydlog wedi'u darparu o dan gynllun Changing Places mewn lleoliadau diwylliannol blaenllaw ledled Cymru.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu arian ar gyfer prosiect 'Way to Go' Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n anelu at lenwi'r bwlch mewn gwybodaeth, sgiliau ac ymwybyddiaeth ymhlith grwpiau anabledd a grwpiau mynediad a chynllunwyr fel ei gilydd. Yn achos grwpiau mynediad ac anabledd, mae hyn yn golygu deall y system gynllunio a sut i ddylanwadu arni ac yn achos cynllunwyr, mae'n meithrin eu dealltwriaeth o sut y gall penderfyniadau cynllunio effeithiol gael effaith ar greu amgylchedd hygyrch a chynhwysol i bobl anabl ac aelodau eraill o'r gymuned.